

Pub is the Hub Case Study

Tafarn y Dderwen Frenhinol, Rhandirmwyn, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, SA20 0NY



Roedd Chris yn arfer gweithio yn adran ngwasanaethau technegol Fuller Smith ac ym Mragdy Turners yn Llundain. Roedd Rachel yn athrawes ysgol gynradd. Pan anwyd eu merch, bu iddyn nhw ystyried gadael Llundain ond bryd hynny doedden nhw ddim wedi meddwl am redeg tafarn. Fe aethon nhw i'r Rhandirmwyn ar eu gwyliau ac roedden nhw wrth eu boddau â'r ardal, ac yn enwedig y gymuned yn y pentref. Digwydd iddyn nhw sgwrsio â pherchennog Tafarn y Dderwen Frenhinol a dywedodd yntau ei fod e am ymddeol. Diwedd yr hanes fu iddyn nhw brydlesu'r dafarn ganddo. Bu iddyn nhw gymryd yr awenau ym mis Ebrill 2009.

Crynodeb o'r Prosiect:

Mae'r Rhandirmwyn yn bentref diarffordd yng nghanol y wlad ac felly fe fuasai cau'r siop yno ar yr 31ain o Fawrth 2014 wedi peri trafferthion i'r gymuned leol. Fodd bynnag, ar y 1^{af} o Ebrill 2014 bu i Chris a Rachel droi ystafell pŵl y dafarn yn siop dros dro gan ddefnyddio dodrefn y dafarn a'r bwrdd pŵl ei hun i arddangos y cynnyrch. Dyma atsain o'r dyddiau gynt gan mai'r ystafell pŵl oedd safle'r siop er stalwm, cyn iddi ddod yn rhan o'r dafarn!

Roedd Chris a Rachel mor hapus ag ymateb y bobl leol i'r siop dros dro fel y cysyllton nhw â'r Dafarn yw'r Galon i ofyn am gyngor a chymorth cyllidol i helpu iddyn nhw droi'r ystafell pŵl yn siop barhaol. Diolch i haelioni Cronfa Cefn Gwlad Tywysog Charles, bu i'r Dafarn yw'r Galon allu rhoi £4 000 o arian grant tuag at gostau sefydlu'r siop barhaol. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod silffoedd arddangos cynnyrch a chreu lle storio yn yr atig, gosod rhewgelloedd ac oergelloedd siop yn ogystal â diweddaru'r prif gyflenwad trydan.

Y canlyniadau hyd yma

Fe newidiwyd y siop o fod yn siop dros dro i fod yn siop barhaol heb darfu ar y masnachu. Mae bellach yn bosib cadw mwy o gynnyrch yn y siop na phan oedd hi'n siop dros dro. Gan mai dechrau fel siop dros dro wnaeth hi, bu posib canfod llawer o gyflenwyr lleol yn raddol. Pan oedd y siop yn drefniant dros dro, staff y dafarn oedd yn gweithio yno, yma ac acw fel yr oedd hynny'n gweithio. Y gobaith nawr ydy y bydd y siop yn ddigon llwyddiannus fel y gellir cyflogi rhywun i weithio yn y siop yn llawn amser. Tan y bo hynny'n bosib, mae Chris yn ceisio tynnu criw o wirfoddolwyr lleol at ei gilydd i redeg y siop.

Dyfal donc:

Fe fu blwyddyn o redeg siop dros dro yn gyfle da i weld pa gynnyrch yr oedd pobl yn ei brynu yn y siop. Ond, mae'n amlwg y bydd angen cryn fwy o amser cyn bo'r siop yn mireinio'r polisi stocio i'r dim. Does dim angen i bob cynnyrch fod ar ddangos chwaith. Er enghraifft, yn ôl gofyn gan y cwsmeriaid, dechreuodd y siop werthu glo a photeli nwy. Mae'r siop yn sicr yn rhoi mwy o ymdeimlad cymunedol i'r dafarn, ac mae'r ffaith bod y bobl leol yn rhan o'r broses o benderfynu pa stoc sydd ar gael yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwnnw. Mae Chris a Rachel yn sicrhau bod ystod dda o gynnyrch Cymreig yn y dafarn, yn cynnwys cwrw, seidr, chwisgi a gin Cymreig. Mae'r un peth yn wir yn y siop, maen nhw'n ceisio sicrhau bod y cyflenwyr mor lleol ag sydd bosib.

| | |
|------------------------------------|--|
| Cyfanswm pris y prosiect: | £9650 |
| Cyfraniad gan (E.e. pubco): | £500 (cafwyd oergell yn rhodd gan gyfanwerthwr Castell Howell) |
| Cyfraniad gan ddeiliad y drwydded: | £5150 |
| Grant CSF: | £4,000 |

CYSWLLT DEILIAID TRWYDDED: Christopher Pollington a Rachel Byrne
FFÔN: 01550 760201
PERCHENNOG Y DAFARN: Tafarn ryddfraint

Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01423 546165 neu e-bostiwch enquiries@pubisthehub.org.uk